# Hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer safleoedd gwersylla dros dro Gorffennaf 2026

## Cynnwys


Newidiadau i hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer safleoedd gwersylla i bebyll ........ 2

Y rheolau cyn 1 Mehefin 2026 ........ 3

Y rheolau ar ôl 1 Medi 2026 ........ 3

**Pan nad yw hawliau datblygu a ganiateir yn gymwys** ........ 3

Camau gweithredu sy'n ofynnol cyn i'r defnydd gwersylla ddechrau - y broses newydd ........ 4

**Cyflwyno'r hysbysiad** ........ 5

**Ffi ymgeisio** ........ 5

Sut bydd yr awdurdod cynllunio yn penderfynu a oes angen sicrhau Cymeradwyaeth Ymlaen Llaw? ........ 5

**Nodi'r dyddiadau arfaethedig** ........ 7

**Cyfrifo'r diwrnodau o ddefnydd** ........ 7

**Os nad yw'r awdurdod cynllunio yn rhoi cymeradwyaeth ymlaen llaw** ........ 8

**Newid y dyddiadau gweithredu** ........ 9

Pa bethau eraill y dylwn i eu hystyried wrth gynllunio i weithredu safle gwersylla? ........ 9

**Ymddygiad ystyriol** ........ 10

**Rheoli diogelwch y safle** ........ 10

**Cynllun y safle a mynediad i'r safle** ........ 10

Adeiladu cyfleusterau a seilwaith ychwanegol ........ 11

**Glampio** ........ 11

**Twbâu twym** ........ 11

Rhagor o hawliau datblygu a ganiateir sy'n berthnasol ........ 11

**Sefydliadau â thystysgrif eithrio ar gyfer gwersylla** ........ 11

**Hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer defnyddio tir at ddibenion carafannau** ........ 12

**Sefydliadau â thystysgrif eithrio ar gyfer carafannau** ........ 12

# Safleoedd Gwersylla Dros Dro yn 2026

Mae'r rheolau ynghylch caniatâd cynllunio ar gyfer safleoedd gwersylla dros dro yn newid yn 2026. Mae'r canllaw hwn yn esbonio'r newidiadau y bydd angen i berchnogion a gweithredwyr safleoedd gwersylla eu gwneud i gadw o fewn y rheolau.

## Y defnydd dros dro o tir at ddibenion safle gwersylla hamdden

Mae angen caniatâd cynllunio i newid defnydd tir. Mae hyn yn cynnwys defnyddio tir ar gyfer safleoedd gwersylla dros dro, hyd yn oed am gyn lleied ag un diwrnod.

Mae caniatâd cynllunio cenedlaethol yn bodoli sy'n caniatáu i dirfeddianwyr weithredu safleoedd gwersylla dros dro ar gyfer pebyll am hyd at 28 diwrnod bob blwyddyn, yn ddarostyngedig i amodau sy'n cyfyngu ar y math o dir y gellir ei ddefnyddio.

Gall awdurdodau cynllunio hefyd dynnu'r caniatâd o'r tir trwy gyhoeddi gorchymyn (y cyfeirir ato'n aml fel “Cyfarwyddyd Erthygl 4”).

### Beth yw caniatâd cynllunio cenedlaethol?

Mae caniatâd cynllunio cenedlaethol, a elwir hefyd yn "hawliau datblygu a ganiateir", yn galluogi tirfeddianwyr i ymgymryd â gwaith datblygu heb wneud cais am ganiatâd gan yr awdurdod cynllunio.

Mae hawliau datblygu a ganiateir wedi'u nodi yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 ("Gorchymyn 1995").

Mae Rhan 4 o Orchymyn 1995 yn disgrifio'r caniatâd cynllunio a roddir ar gyfer y defnydd dros dro o tir fel safle gwersylla ar gyfer pebyll.

Mae Rhan 5 yn disgrifio'r caniatâd cynllunio a roddir ar gyfer safleoedd carafannau.

Mae Gorchymyn 1995 yn caniatáu i awdurdodau cynllunio ddileu'r hawliau datblygu a ganiateir naill ai drwy ddefnyddio Cyfarwyddyd Erthygl 4 neu pan fydd cais cynllunio yn cael ei roi yn ddarostyngedig i amod cyfyngol. Cyn gweithredu safle gwersylla dros dro, dylech wirio a yw hawliau datblygu a ganiateir wedi'u tynnu'n ôl o'r tir.

## Newidiadau i hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer safleoedd gwersylla i bebyll

Ar 1 Medi 2026, bydd newid i'r hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer y defnydd dros dro o dir at ddibenion safleoedd gwersylla i bebyll. Os ydych chi'n berchen ar safle gwersylla dros dro neu'n gweithredu safle o'r fath, bydd angen i chi baratoi ar gyfer y newid hwn a gofyn i'ch awdurdod cynllunio a oes angen sicrhau cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer eich safle.

Gallwch ddechrau paratoi ar gyfer y newid o 1 Mehefin 2026 pan gellir gwneud ceisiadau i'r awdurdod cynllunio. Rhwng 1 Mehefin a 1 Medi 2026, bydd yr hen hawliau datblygu a ganiateir a'r rhai newydd yn bodoli, a gall gweithredwyr safleoedd gwersylla ddewis pa rai y maent am eu defnyddio.

**Y rheolau cyn 1 Mehefin 2026**

Mae Dosbarth B o Ran 4 o Atodlen 2 i Orchymyn 1995 yn rhoi'r hawl i dirfeddianwyr ddefnyddio eu tir am hyd at 28 diwrnod mewn unrhyw flwyddyn galendr fel safle gwersylla hamdden ar gyfer pebyll. Nid yw'r caniatâd yn caniatáu'r canlynol:

- carafannau, sy'n ddarostyngedig i reolau ar wahân, a nodir yn Rhan 5 o Orchymyn 1995.
- Y defnydd o adeiladau
- Y defnydd o dir o amgylch adeiladau.

**Y rheolau ar ôl 1 Medi 2026**

O 1 Medi, bydd gwersylla yn cael ei dynnu o Ddosbarth B a'i symud i Ddosbarth BA newydd yn Rhan 4 o Atodlen 2 i Orchymyn 1995.

Bydd y newidiadau canlynol yn dod i rym:

- Bydd safleoedd gwersylla dros dro yn gallu gweithredu am hyd at 60 diwrnod mewn unrhyw flwyddyn galendr, ac eithrio safleoedd mewn parciau cenedlaethol, tirweddau cenedlaethol a safleoedd treftadaeth y byd a fydd yn parhau i fod yn 28 diwrnod.
- Ni chaniateir gwersylla pan fyddai hynny'n gallu difrodi'r tir neu y byddai'n peri risg o ran diogelwch i wersyllwyr. Mae'r safleoedd hyn wedi'u rhestru isod.
- Ni ellir defnyddio tir o fewn 100 metr i annedd a ddefnyddir gan rywun nad yw'n berchennog nac yn weithredwr y safle gwersylla arfaethedig.
- Gellir defnyddio tir o amgylch adeiladau fel safle gwersylla dros dro.
- Bydd gwersylla sy'n gysylltiedig â gŵyl yn aros yn Nosbarth B ac yn cael ei ganiatáu am hyd at 28 diwrnod bob blwyddyn galendr.
- Bydd angen i chi roi gwybodaeth am eich safle gwersylla arfaethedig i'r awdurdod cynllunio i ofyn a oes angen sicrhau cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer y defnydd.

**Pan nad yw hawliau datblygu a ganiateir yn gymwys**

Ni allwch ddefnyddio eich tir fel safle gwersylla dros dro os yw hawliau datblygu a ganiateir wedi'u tynnu'n ôl gan Gyfarwyddyd Erthygl 4 neu amod cynllunio. At hynny, ni allwch ddefnyddio eich tir os yw'n:

- safle heneb gofrestredig;
- safle mewn ardal cadwraeth arbennig;
- ardal perygl i ddiogelwch;
- ardal storio ffrwydron milwrol;
- safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig;

- safle Ramsar;
- safle adeilad rhestredig;
- safle mewn ardal gwarchodaeth arbennig;
- safle o fewn Parthau Llifogydd 2 neu 3; neu
- os yw o fewn 100 metr i annedd warchodedig ac eithrio at ddefnydd unrhyw ffordd breifat.

Mae "annedd warchodedig" yn dŷ annedd sy'n cael ei ddefnyddio gan rywun nad yw'n berchennog nac yn weithredwr y safle gwersylla arfaethedig.

Mae "ffordd breifat" yn ffordd sydd eisoes yn bodoli, ac mae gennych hawl gyfreithiol i'w defnyddio i gael mynediad at eich tir.

## Camau gweithredu sy'n ofynnol cyn i'r defnydd gwersylla ddechrau - y broses newydd

Mae'r broses newydd yn cynnwys y camau canlynol:

1. **Rhoi gwybod i'r awdurdod cynllunio am eich defnydd arfaethedig dros dro ar gyfer safle gwersylla**

   - Dylech wneud cais i'r awdurdod cynllunio i gadarnhau a oes angen sicrhau cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer eich safle gwersylla arfaethedig ai peidio.
     - Llenwch y ffurflen gais safonol
     - Atodwch gynllun o'r safle sy'n dangos y canlynol:
       - Lleoliad y lleiniau a'r amwynderau
       - Manylion y toiledau a'r cyfleusterau dŵr gwastraff
       - Cyfleusterau gwaredu sbwriel a gwastraff arall
       - Manylion mynediad o'r briffordd
       - Y dyddiadau y bydd y safle'n cael ei defnyddio

   - Rhaid i'r awdurdod cynllunio benderfynu o fewn 28 diwrnod a oes angen sicrhau cymeradwyaeth ymlaen llaw ai peidio.

2. **Gwneud cais am gymeradwyaeth ymlaen llaw (os oes angen)**

   - Os yw'r awdurdod cynllunio yn rhoi gwybod i chi bod angen cael cymeradwyaeth ymlaen llaw, rhaid iddo egluro pa wybodaeth ychwanegol sy'n ofynnol. Yna rhaid i chi ddarparu'r wybodaeth ychwanegol y mae'r awdurdod wedi gofyn amdani.

   - Dylai'r awdurdod cynllunio gyhoeddi penderfyniad o fewn 8 wythnos.

3. **Rhoi'r datblygiad ar waith**

   - Os nad oes angen sicrhau cymeradwyaeth ymlaen llaw, neu os nad yw'r awdurdod cynllunio yn ymateb o fewn 28 diwrnod, gallwch ddefnyddio'r tir yn unol â'r dogfennau a gyflwynwyd gennych.

- Os oes angen sicrhau cymeradwyaeth ymlaen llaw, gallwch ddefnyddio'r tir ar ôl i'r awdurdod cynllunio roi'r gymeradwyaeth yn ysgrifenedig. Dim ond yn y modd a ddisgrifir gan y manylion cymeradwy a'r amodau sydd ynghlwm wrth y gymeradwyaeth y caniateir i chi ddefnyddio'r safle.

Gallwch gyflwyno apêl barnu'n annilys i Weinidogion Cymru os oes un o'r canlynol yn berthnasol:

- Rhoddir hysbysiad o gais annilys i chi;
- Mae'r awdurdod cynllunio yn gofyn am gymeradwyaeth ymlaen llaw ac:
  - yn gwrthod y cais, neu
  - yn methu â phenderfynu ar y cais o fewn 8 wythnos

## 1. Rhoi gwybod i'r awdurdod cynllunio am eich defnydd arfaethedig dros dro ar gyfer safle gwersylla

### Cyflwyno'r hysbysiad

Mae ffurflen ar wefan Llywodraeth Cymru i'ch tywys drwy'r broses a'ch helpu i gasglu'r wybodaeth berthnasol. Drwy ddarparu'r holl wybodaeth angenrheidiol, byddwch yn helpu'r awdurdod cynllunio i ddod i benderfyniad ac yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd angen sicrhau cymeradwyaeth ymlaen llaw.

Ar ôl i'r awdurdod cynllunio gael eich cais, rhaid iddo benderfynu o fewn 28 diwrnod a oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw. Os nad yw'n gwneud hynny, neu os yw'n cadarnhau nad oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw, gallwch fwrw ati a defnyddio eich safle gwersylla yn unol â'r wybodaeth a ddarparwyd gennych.

Os ydych chi eisiau newid rhywbeth yn ddiweddarach, fel cynllun y safle gwersylla neu'r ffordd o gael mynediad, dylech gyflwyno hysbysiad newydd i weld a yw'r awdurdod cynllunio am i chi sicrhau cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer y cynllun diwygiedig.

### Ffi ymgeisio

Ar hyn o bryd nid oes ffi gynllunio ar gyfer y broses hon. Mae Llywodraeth Cymru yn cynyddu ffioedd cynllunio i sicrhau eu bod yn talu'r gost o ddarparu'r gwasanaeth cyhoeddus pwysig hwn. Byddwn yn adolygu'r gost a'r llwyth gwaith i awdurdodau cynllunio yn barhaus.

### <u>Sut bydd yr awdurdod cynllunio yn penderfynu a oes angen sicrhau Cymeradwyaeth Ymlaen Llaw?</u>

Mae tri phrif fater y bydd yr awdurdod cynllunio yn eu hystyried:

- **Eich trefniadau arfaethedig ar gyfer toiledau a chyfleusterau dŵr gwastraff ar y safle**. Mae'r cwestiynau y gellid eu gofyn yn cynnwys y canlynol:

    - A oes yna risg sylweddol o lygredd yn sgil trefniadau annigonol ar y safle?
    - A oes yna ddigon o gapasiti storio i ddal gwastraff cyn iddo gael ei symud oddi ar y safle?
    - A yw'r bwriad arfaethedig i storio gwastraff yn debygol o achosi niwsans?
    - A fydd gwaredu gwastraff ar y tir yn effeithio ar dir cyfagos? Mae hyn o arwyddocâd arbennig pan gallai safleoedd fod yn agos at nodweddion amgylcheddol sensitif fel nentydd neu lynnoedd, safleoedd natur gwarchodedig neu ardaloedd preswyl.

- **Eich trefniadau arfaethedig ar gyfer gwaredu gwastraff sy'n deillio o'r safle**. Mae'r cwestiynau y gellid eu gofyn yn cynnwys y canlynol:
    - A yw'r bwriad arfaethedig i storio gwastraff yn debygol o achosi niwsans?
    - A oes trefniadau yn cael eu gwneud i wahanu gwastraff i'w ailgylchu?

  Dylai eich trefniadau casglu gwastraff fod yn unol â strategaeth rheoli gwastraff a phrotocol casglu gwastraff yr awdurdod lleol. Dylid darparu manylion am unrhyw gontract gwaredu gwastraff masnachol y byddwch yn eu ddefnyddio.

- **Eich ffordd arfaethedig o roi mynediad i gerbydau**. Mae'r cwestiynau y gellid eu gofyn yn cynnwys y canlynol:
    - A yw'r datblygiad yn debygol o arwain at gynnydd sylweddol, neu newid sylweddol yng nghymeriad y traffig yng nghyffiniau'r safle?
    - A yw'r lleiniau gwelededdd wrth y fynedfa i'r safle yn debygol o gydymffurfio â safonau dylunio cenedlaethol?
    - A yw nifer y lleiniau gwersylla a'r cyfleusterau, neu'r ffordd y maent wedi'u gosod, yn debygol o arwain at giwiau yn ôl at y briffordd?

  Dylai cerbydau allu ymadael ac ymuno â'r briffordd gyhoeddus yn ddiogel, a heb gael effaith andwyol ar amwynder defnyddwyr eraill. Bydd awdurdodau cynllunio yn ystyried nifer tebygol y cerbydau ar y safle, a nifer ac amlder y teithiau a fyddai'n deillio o hynny. Byddant yn ystyried sut rydych chi'n rheoli mynediad diogel i'r safle o'r briffordd.

Drwy ddarparu cymaint o fanylion â phosibl ar eich ffurflen hysbysu a'ch cynllun, mae'n llai tebygol y bydd angen rhagor o wybodaeth ar awdurdodau cynllunio, ac yn llai tebygol y bydd angen sicrhau Cymeradwyaeth Ymlaen Llaw.

**Safleoedd gwersylla dros dro ger safleoedd natur gwarchodedig**

Pan fo'r datblygiad yn debygol o gael effaith andwyol ar gyfanrwydd safle gwarchodedig, ni chaiff y gwaith datblygu ddechrau ar y safle, hyd yn oed os nad yw'r awdurdod cynllunio wedi ymateb i'r hysbysiad o fewn 28 diwrnod.

Os nad ydych yn siŵr a fydd eich safle gwersylla arfaethedig yn cael effaith andwyol ar safle gwarchodedig, gallwch ofyn am farn ffurfiol gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Yn unol â Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio asesu a fyddai bwrw ymlaen â gwaith datblygu o dan hawliau datblygu a ganiateir yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd safle gwarchodedig. Yn achos safleoedd gwersylla, byddai hyn yn fwyaf tebygol o ddigwydd yn sgil camreoli gwastraff neu ddŵr gwastraff, neu ddisgyblaeth gwael yn y gwersyll.

**Nodi'r dyddiadau arfaethedig**

Mae hawliau datblygu a ganiateir ar gael am nifer cyfyngedig o ddiwrnodau o ddefnydd. Os eir y tu hwnt i'r nifer hwn, yna nid yw'r newid defnydd dros dro yn elwa o ganiatâd cynllunio, a dylid cyflwyno cais cynllunio. Mae nodi'r diwrnodau arfaethedig o ddefnydd ymlaen llaw yn galluogi awdurdodau cynllunio i ystyried y mater hwn. Mae hefyd o gymorth wrth ymchwilio i gwynion am safleoedd gwersylla yr honnir eu bod yn gweithredu heb ganiatâd.

**Cyfrifo'r diwrnodau o ddefnydd**

Mater i chi yw dewis y dyddiadau sy'n gweithio i chi redeg safle. Er enghraifft, os yw canol yr wythnos yn dawel yn ystod y tymor ysgol, gallwch agor dros y penwythnos a chau yn ystod yr wythnos. Byddwch yn ymwybodol, fodd bynnag, am bob diwrnod y bydd cyfleusterau gwersylla ar eich tir, bydd hynny'n cyfrif tuag at uchafswm y diwrnodau hyd yn oed os nad oes cwsmeriaid ar y safle.

Cyfrifir dyddiadau yn seiliedig ar y flwyddyn galendr, ac mae unrhyw ddiwrnodau y defnyddir y tir ar gyfer gwersylla yn cyfrif tuag at y cyfanswm, p'un a yw hyn cyn neu ar ôl i chi gyflwyno cais i'r awdurdod cynllunio. Nid yw cymeradwyo amrywiad i'ch cynllun yn caniatáu unrhyw ddiwrnodau "ychwanegol" ar gyfer defnydd dros dro; mae'r terfyn cyffredinol yn parhau i fod yn gymwys.

Yn ystod 2026, bydd angen cyfrifo unrhyw ddiwrnodau y defnyddir safle ar gyfer gwersylla o dan yr hen reolau (Dosbarth B) hyd at y terfyn o 28 diwrnod, a'u tynnu o'r terfyn o 60 diwrnod yn unol â'r rheolau newydd (Dosbarth BA) y tu allan i ardaloedd dan gyfyngiad.

Er enghraifft, os ydych chi'n defnyddio safle am 10 diwrnod o dan yr hen reolau, ar ôl cyflwyno eich hysbysiad o dan y rheolau newydd, dim ond 50 diwrnod fydd ar gael tan ddiwedd 2026 ar gyfer safleoedd sydd â therfyn newydd o 60 diwrnod. Wedyn, bydd angen cyflwyno hysbysiad pellach ar gyfer 2027.

I agor safle gwersylla am fwy na'r terfyn diwrnodau sy'n berthnasol i'ch safle chi, bydd angen i chi gael caniatâd cynllunio a thrwydded ar gyfer safle gwersylla.

## 2. Gwneud cais am gymeradwyaeth ymlaen llaw os bydd yr awdurdod cynllunio yn dweud bod hynny'n ofynnol

Dylai'r awdurdod cynllunio nodi, yn ei lythyr penderfyniad, y manylion y mae angen iddo eu hasesu er mwyn penderfynu a ddylid cymeradwyo'r cynnig. Dylai'r wybodaeth hon fod y lleiaf posibl y mae ei hangen i ddod i benderfyniad. Dylai'r awdurdod gyhoeddi penderfyniad ynghylch y gymeradwyaeth ymlaen llaw o fewn 8 wythnos.

Ar hyn o bryd nid oes yna ffi gynllunio ar gyfer cael y gymeradwyaeth hon ymlaen llaw.

**Os nad yw'r awdurdod cynllunio yn rhoi cymeradwyaeth ymlaen llaw**

Os yw'r awdurdod cynllunio yn gwrthod rhoi cymeradwyaeth ymlaen llaw, neu os nad yw'n cyhoeddi penderfyniad o fewn 8 wythnos ar ôl i chi gyflwyno'r manylion y gofynnodd amdanynt yn y llythyr penderfyniad cychwynnol, yna gallwch apelio i Weinidogion Cymru.

Nid oes ffioedd cynllunio ar gyfer apeliadau. Efallai y byddwch yn penderfynu defnyddio arbenigedd gweithiwr proffesiynol mewn unrhyw apêl. Er y gellir dyfarnu costau yn erbyn y parti sy'n colli mewn achos apêl, fel arfer disgwylir i bartïon dalu eu costau eu hunain.

Os yw'r awdurdod cynllunio yn gwrthod rhoi caniatâd, a bod y penderfyniad hwn yn cael ei gadarnhau, efallai y byddwch yn gallu ceisio iawndal am golli enillion sy'n gysylltiedig â'r gwrthodiad.

Os wnaethoch chi gais cyn 1 Medi 2027, efallai y byddwch hefyd yn gallu ceisio iawndal gan yr awdurdod cynllunio am golli enillion sy'n gysylltiedig â gwrthod caniatâd cynllunio.

## 3. Rhoi'r datblygiad ar waith

Os yw'r awdurdod cynllunio wedi rhoi cymeradwyaeth ymlaen llaw, neu os nad oes angen cael cymeradwyaeth ymlaen llaw, gallwch ddefnyddio eich tir ar gyfer safle gwersylla, cyn belled bod hyn yn digwydd yn unol â'r cynlluniau a gyflwynwyd.

**Gwneud newidiadau i drefniadau a gymeradwywyd**

Gallwch amrywio'r dyddiadau y mae eich safle gwersylla yn gweithredu drwy roi gwybod i'r awdurdod cynllunio yn ysgrifenedig ymlaen llaw. Dylech gael cadarnhad bod yr awdurdod yn cydsynio i'r amrywiad o ran dyddiadau cyn defnyddio'r safle ar gyfer gwersylla ar y dyddiadau newydd.

Os hoffech wyro oddi wrth fanylion eraill a gyflwynwyd, dylech ystyried a ddylid cadarnhau'r newid hwn gyda'r awdurdod cynllunio. Dylai unrhyw newid sy'n debygol o addasu'n sylweddol yr asesiad o'r cynllun gan yr awdurdod cynllunio (a nodir yn fanwl uchod) fod yn destun hysbysiad arall i'r awdurdod hwnnw.

Enghreifftiau o newidiadau a fyddai'n rhai sylweddol ac yn sbarduno'r angen am gais newydd i'r awdurdod cynllunio:

- Cynyddu nifer y lleiniau gwersylla
- Newid y dull o waredu gwastraff neu ddŵr gwastraff
- Creu neu newid mynediad i'r safle gwersylla

Enghreifftiau o newidiadau na fyddai'n rhai sylweddol:

- Lleihau nifer y lleiniau gwersylla, ond fel arall, cydymffurfio â'r cynllun fel y'i cyflwynwyd
- Newid contractwr gwaredu gwastraff
- Rhoi'r gorau, dros dro, i'r safle gwersylla, er enghraifft yn ystod gwyliau

Gallwch ymgynghori â'ch awdurdod cynllunio i gael barn anffurfiol ynghylch a oes angen cais newydd ai peidio, ond os oes unrhyw amheuaeth, y peth gorau i'w wneud yw cyflwyno cais newydd. Ar hyn o bryd nid oes ffi ar gyfer y broses hon, ac os yw'r cynllun diwygiedig yn cael ei gymeradwyo a'ch bod yn cydymffurfio ag ef, mae'n debygol y byddech yn ddiogel rhag camau gorfodi cynllunio yn nes ymlaen.

Os yw'r awdurdod cynllunio yn cytuno i amrywiad i gynllun, rhaid i chi ddefnyddio eich tir yn unol â'r amrywiad diweddaraf y cytunwyd arno. Er enghraifft, os yw eich cynllun cychwynnol yn cynnig mynediad o lôn, a'ch bod yn cyflwyno cynllun diwygiedig sy'n cynnig mynediad drwy gât mewn ffens yn lle hynny, yna os cymeradwyir yr ail gynllun ni allwch barhau i ddefnyddio'r lôn.

Os byddwch yn dewis amrywio eich cynllun heb gadarnhau a oes angen sicrhau cymeradwyaeth ymlaen llaw, neu os nad ydych yn cydymffurfio â'r cynllun diweddaraf y cytunwyd arno, rydych chi'n eich rhoi eich hun mewn perygl o gamau gorfodi cynllunio. Dim ond pan fo awdurdod cynllunio o'r farn ei bod yn hwylus defnyddio pwerau gorfodi er budd ehangach y cyhoedd y dylid gwneud hynny. Defnyddir pwerau gorfodi i ddod â'r defnydd o dir yn ôl o fewn rheolaeth gynllunio. Gall methu â chydymffurfio â rheolaeth gynllunio arwain at gamau cyfreithiol dilynol gan yr awdurdod cynllunio.

**Newid y dyddiadau gweithredu**

Gallwch ofyn am gadarnhad ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio bod y dyddiadau diwygiedig yn dderbyniol, heb orfod mynd trwy'r broses gyfan eto. Rhaid gofyn am hyn ymlaen llaw. Ni ddylid amrywio dyddiadau yn ôl-weithredol.

## Pa bethau eraill y dylwn i eu hystyried wrth gynllunio i weithredu safle gwersylla?

Rhaid i bob safle ar gyfer pebyll sy'n gweithredu am fwy na 42 diwrnod yn olynol, neu am gyfanswm o fwy na 60 diwrnod mewn unrhyw 12 mis yn olynol, gael ei drwyddedu gan awdurdod lleol o dan Adran 269 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936. Ni chaiff safleoedd weithredu am fwy na 60 diwrnod; fodd bynnag, bydd angen i chi ystyried nifer y diwrnodau olynol rydych chi'n bwriadu gweithredu.

Dylid rheoli safleoedd gwersylla fel y gall defnyddwyr y safle fwynhau eu hamser yng nghefn gwlad heb effeithio ar fwynhad eraill. Nid yw'r cyngor canlynol yn destun ystyriaeth yn y broses o wneud cais am gymeradwyaeth ymlaen llaw; fodd bynnag, bydd yn rhoi sicrwydd i'ch awdurdod cynllunio eich bod wedi ystyried eich cynnig yn drylwyr a'i fod yn ymarferol.

## Ymddygiad ystyriol

Efallai y byddwch am ystyried nodi "oriau tawel" cytunedig ymlaen llaw ar gyfer defnyddwyr y safle, a sicrhau bod y defnyddwyr yn deall yr angen i beidio ag amharu ar fannau agored o fewn 100 metr i annedd warchodedig.

Dylai defnyddwyr eich safle hefyd ddeall yr angen i gydymffurfio â'r gweithdrefnau rydych wedi'u nodi yn eich cais, ac yn benodol mewn perthynas â rheoli gwastraff a dŵr gwastraff. Os nad yw defnyddwyr y safle yn cydymffurfio, ac yn gwaredu gwastraff neu ddŵr gwastraff mewn ffyrdd eraill, yna ar eich ysgwyddau chi fel perchennog neu weithredwr y safle bydd y cyfrifoldeb.

## Rheoli diogelwch y safle

Fel perchennog neu weithredwr y safle, chi sy'n gyfrifol am gydymffurfio â mathau eraill o ddeddfwriaeth, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd a diogelwch. Gall ffermydd gweithio a mentrau gwledig beri risgiau na fydd pobl nad ydynt yn byw mewn ardaloedd gwledig efallai yn eu hamgyffred, yn enwedig pan fo anifeiliaid ar y safle. Dylech ystyried rhoi gwybod i ddefnyddwyr eich safle am unrhyw ardaloedd na chânt fynd iddynt, ac ystyried a ddylai anifeiliaid anwes fod ar dennyn, ynghyd â'r angen am unrhyw arwyddion neu rwystrau dros dro yn ystod y tymor gwersylla. Efallai y byddwch hefyd am ystyried rheolau i leihau'r risg o dân.

## Cynllun y safle a mynediad i'r safle

Cwyn a glywir yn aml mewn perthynas â safleoedd gwersylla yw'r effaith ar y dirwedd. Gallwch osgoi hyn neu liniaru'r effaith drwy osod eich lleiniau ar hyd ffiniau caeau, neu ddefnyddio dulliau sgrinio naturiol, fel coed neu adeiladau eraill.

Ni ddylai trefniadau mynediad i'ch safle achosi tagfeydd ar y rhwydwaith priffyrdd lleol. Ystyriwch ble bydd defnyddwyr y safle yn parcio wrth aros i gofrestru ar ôl cyrraedd. Ni ddylai hyn gynnwys defnyddio'r briffordd. Ystyriwch y posibilrwydd o fynedfa ac allanfa ar wahân fel y gall cerbydau lifo'n rhwydd drwy'r safle. Os yw'r mynediad i'ch safle ar hyd trac un lôn, yna ystyriwch a ellir annog cwsmeriaid i ddefnyddio llwybrau gwahanol i mewn ac allan i leihau'r posibilrwydd y bydd cerbydau'n mynd benben a'i gilydd. Yn ddelfrydol, dylai'r mynediad i gerddwyr fod ar wahân i'r mynediad i gerbydau, lle bo hynny'n bosibl.

Gall cynllun a llwybrau clir i gerbydau, a therfyn cyflymder priodol ar gyfer cerbydau, fod yn ddefnyddiol i sicrhau y gall defnyddwyr y safle symud o gwmpas y safle heb greu risgiau diogelwch diangen. Wrth benderfynu ar gynlluniau'r lleiniau, dylech hefyd ystyried darparu mannau parcio addas ar gyfer pob llain.

Mae'n ofynnol cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer safleoedd gwersylla o fewn parthau llifogydd 2 neu 3. Y tu allan i ardaloedd o'r fath dylech ddal i ystyried effaith debygol glaw trwm ar y tir, a sut y bydd defnyddwyr eich safle gwersylla yn gadael y safle os bydd tywydd garw.

## Adeiladu cyfleusterau a seilwaith ychwanegol

Nid yw hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer safleoedd gwersylla hamdden yn caniatáu unrhyw waith neu weithrediadau parhaol. Bydd yn ofynnol cael caniatâd cynllunio i adeiladu neu godi unrhyw seilwaith sefydlog fel adeiladau, traciau, mynedfeydd newydd neu arwynebau caled. Rhaid i unrhyw gyfleusterau angenrheidiol newydd fod yn strwythurau symudol, dros dro sy'n rhesymol angenrheidiol at ddibenion y safle gwersylla dros dro, a rhaid eu symud ymaith pan nad yw'r tir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwersylla.

### Glampio

Mae yna lawer o strwythurau posibl ar gyfer cysgu ar safle glampio . Er mwyn elwa o ddatblygiad a ganiateir, bydd hynny fel arfer yn dibynnu a yw'r strwythur yn un dros dro ac y gellid yn rhesymol ei ystyried yn babell. Mae'n debygol y bydd angen caniatâd ar strwythurau glampio na ellir eu symud yn hawdd. Mae hyn yn cynnwys podiau glampio, cytiau bugeiliaid, geo-gromenni a chabanau moethus. Gall rhai strwythurau fel podiau glampio ddod o fewn y diffiniad o garafán; ac felly byddent yn ddarostyngedig i reolau cynllunio gwahanol. Os oes unrhyw amheuaeth, holwch eich awdurdod cynllunio.

### Twbâu twym

Rhaid i unrhyw gyfleusterau angenrheidiol newydd, fel cyfleusterau ymolchi, fod yn strwythurau dros dro. Rhaid i strwythurau symudol sy'n rhesymol angenrheidiol at ddibenion y safle gwersylla dros dro gael eu symud ymaith pan nad yw'r tir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwersylla. Gall gwersyllwyr ddefnyddio twbâu twym cludadwy wedi'u llenwi ag aer, cyn belled eu bod yn cael eu symud oddi yno pan nad yw'r safle yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwersylla.

Os oes angen plymio'r twba twym neu wneud gwaith gosod arall cyn y gellir ei ddefnyddio, yna efallai y bydd yn peidio â bod yn gyfleuster dros dro, ac os felly dylid gofyn am ganiatâd cynllunio. Mae p'un a yw defnydd dros dro o dir yn dod yn barhaol, ac felly yn golygu ei bod yn ofynnol cael caniatâd cynllunio, yn fater o ystyried y ffeithiau a'r graddau, a bydd yn destun asesiad fesul achos gan yr awdurdod cynllunio.

# <u>Rhagor o hawliau datblygu a ganiateir sy'n berthnasol</u>

### Sefydliadau â thystysgrif eithrio ar gyfer gwersylla

Gall Gweinidogion Cymru ddyroddi tystysgrif eithrio i glwb neu sefydliad ar gyfer y defnydd dros dro o dir at ddibenion gwersylla, o dan adran 269 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936. Gall sefydliadau esempt ddefnyddio tir ar gyfer safle gwersylla am hyd at 60 diwrnod, ac am hyd at 42 diwrnod yn olynol, heb yr angen i wneud cais am ganiatâd cynllunio. Mae'r tystysgrifau eithrio hyn yn para am 5 mlynedd.

Mae'n ofynnol i sefydliadau esempt sicrhau bod aelodau'n defnyddio safleoedd mewn modd na fydd yn effeithio'n andwyol ar amwynder eraill. Er mwyn cael ei gymeradwyo, rhaid i'r clwb fodloni'r pwyntiau canlynol:

- Wedi'i ffurfio'n briodol, yn meddu ar gyfansoddiad, ac yn cynnwys hyrwyddo gweithgareddau hamdden neu addysgol yn ei amcanion;
- Yn gwneud cais am y dystysgrif er ei fudd ei hun ac er budd ei aelodau ac i neb arall;
- Yn rhoi trefniadau digonol ar waith i reoli a goruchwylio ei holl safleoedd ac unrhyw safleoedd a ddefnyddir gan ei aelodau, ac yn gallu darparu tystiolaeth o'i brofiad o drefnu safleoedd gwersylla; ac,
- Yn meddu ar god ymddygiad y disgwylir i'r aelodau gydymffurfio ag ef bob amser.

**Hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer defnyddio tir at ddibenion carafannau**

Mae carafannau yn ddarostyngedig i reolau gwahanol. Rhoddir caniatâd i ddefnyddio tir ar gyfer carafannau yn Rhan 5 o Atodlen 2 i Orchymyn 1995. Gellir lleoli carafannau ar dir heb yr angen am ganiatâd cynllunio os yw maint y datblygiad yn golygu nad yw'n ofynnol cael trwydded safle carafannau. Mae amrywiaeth o amgylchiadau pan fo defnyddio tir ar gyfer carafannau wedi'i esemptio rhag yr angen am drwydded safle, ac mae'r rhain wedi'u rhestru yn Atodlen 1 i Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960. I grynhoi:

- Gall unigolyn sydd â charafán deithio ddefnyddio'r tir am uchafswm o ddwy noson heb yr angen i gael trwydded safle, cyn belled nad oes unrhyw garafán arall ar y safle. Ni ellir defnyddio'r tir dan sylw i leoli carafán am fwy na 28 diwrnod mewn blwyddyn galendr.

- Os oes gan dirfeddiannwr ddaliad o 5 erw neu fwy, nid oes angen trwydded safle os nad oes mwy na thair carafán yn cael eu lleoli ar y tir, ac am uchafswm o 28 diwrnod mewn blwyddyn galendr.

**Sefydliadau â thystysgrif eithrio ar gyfer carafannau**

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i roi tystysgrifau eithrio i sefydliadau sy'n trefnu ralïau gwersylla. Gall y sefydliadau hyn ddyroddi eu tystysgrifau eu hunain i dirfeddianwyr, gan nodi bod y tir wedi'i gymeradwyo i'w ddefnyddio gan eu haelodau. Rhaid adolygu'r tystysgrifau hyn yn flynyddol. Mae'r cyfyngiadau ar gyfer safleoedd esempt wedi'u nodi yn Rhan 5 o Atodlen 1 i Ddeddf 1960. Gall aelodau'r sefydliad esemptio ddefnyddio'r tir am hyd at bum diwrnod gydredol, ac ar gyfer hyd at bum carafán.